



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Ionawr 2021 am 6.00yh  
trwy linc fideo ar y wê**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 January 2021 at 6.00pm  
through video link on the web

**Presennol/**Present—**Y Cynghorwyr/**Councillors Clive Davies (**yn y gadair/**in the chair), John Adams-Lewis, Graham Evans, Catrin Miles, Siân Maehrlein, Richard Jones, Steffan Morgan, Debra Griffiths, Elaine Evans, Trystan Phillips, Shan Williams, Dave Parkinson (*Tivy-Side*), Llinos Haf Jones (**Cyfiethydd/**Translator) Eleri Maskell (**Clerc/**Clerk).

**1. I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb a cytuno a’r rhesymau a roddwyd.**

To receive apologies for absence

To receive, and consider for approval, apologies for absence and reasons given.

**Y Cyng/**ClIrs Wyn Jones, Morvenna Richards, Yvonne O’Neill (**anawsterau technegol/**technical difficulties).

**2. I dderbyn datganiadau o ddiddordeb**

**Atgoffir aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ar unrhyw eitem ar yr Agenda hon ar yr adeg hon neu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Tref Aberteifi.**

To receive declarations of interest

Members are reminded to declare any interest on any item on this Agenda at this point or at any point during the meeting in accordance with Cardigan Town Council’s Code of Conduct.

Y Cyng / Cllr John Adams-Lewis	Materion cynllunio/ Planning matters
--------------------------------	--------------------------------------

**3. Cyflwyniad gan Mr Huw Davies, Rheolwr Ymgysylltu'r Cyfrifiad, Ceredigion a Powys, Swyddfa Ystadegau Gwladol.**

**Gwybodaeth am Gyfrifiad 2021, pwysigrwydd i’r gymuned gyfan gymryd rhan, rhannu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a sut i alluogi mynediad i holl aelodau cymdeithas.**

Presentation by Mr Huw Davies Census Engagement Manager, Ceredigion & Powys, Office for National Statistics.

Information on the Census 2021, the importance for the whole community to take part, sharing information, awareness and how to enable access to all members of society.

**4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**I gytuno a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 1 Rhagfyr 2020.**

Minutes of last meeting

To approve and sign minutes of the meeting held on Tuesday 1 December 2020.

**Cynigiwyd gan y Cyng Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng Richard Jones bod cofnodion cyfarfod 1 Rhagfyr yn gywir.**

Cllr Debra Griffiths proposed that the 1 December council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Richard Jones.

**5. Adroddiad y Clerc**

**I dderbyn adroddiad gan Glerc y dref yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2020.**

- a. Ysgol Gynradd Aberteifi grant am y gampfa. Dyrannwyd swm o £2,000 yn ystod y flwyddyn gyllideb ddiwethaf nad oedd y Clerc yn ymwybodol ohoni, felly mae angen rhoi sic am £1,000 i'r ysgol a'i rhoi o dan y pennawd priodol i gwyiro'r gwall.
- b. Dyfarnwyd grant ychwanegol o £7,629 inni gan CSC ar gyfer y gwelliannau sy'n cael eu gwneud i'r maes chwarae ar gae Brenin Siôr V.
- c. Mae disgwyl i John Dyer ein cyfreithiwr sy'n trefnu prydles ar gyfer y Clybiau Bowlio a Rygbi ymddeol ac mae wedi trosglwyddo'r rôl i'w gydweithiwr Rebecca Jones. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gopi lliw o Atodlen i'r Cynllun gan y Comisiwn Elusennau sydd i bob pwrpas yn gyfystyr â theitl y Cyngor Tref i'r eiddo yn unol â chais cyfreithiwr y Clwb Bowlio. Dim on copi du a gwyn sydd gennym ar ffeil.
- d. Storio y goleuadau Nadolig, ni ddarganfuwyd unrhyw leoliad hyd yma. Y Clerc i barhau i ymchwilio amryw opsiynau.

Clerk's report

To receive a report from the Town Clerk outlining actions taken following the meeting held on 1 December 2020.

- a. Cardigan Junior School grant for the gym. A sum of £2,000 had been allocated in the last budget year that the Clerk was not aware of, therefore a further cheque for £1,000 needs to be given to the school and placed under the appropriate heading to correct the error.
- b. An additional grant of £7,629 has been awarded to us from CCC for the improvements being made to the play area at King George V Field.
- c. John Dyer our solicitor arranging the leases for the Bowling and Rugby Club is due to retire and has handed over the responsibility to his colleague Rebecca Jones. We are currently awaiting a coloured copy of a Schedule to the Scheme from the Charity Commission which effectively constitutes the Town Council's title to the property as requested by the Bowling Club's solicitor. We only have a black and white copy on file.
- d. Storage for the Christmas lights, no location has been found to date. The Clerk to continue to research various options.

**Penderfynodd y cyngor gytuno i'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad y Clerc.**

The Council resolved to agree to the points raised in the Clerk's report.

**6. Eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat**

**I benderfynu pa eitemau, os o gwbl, o'r Agenda y dylid eu cymryd gyda'r cyhoedd wedi'u gwahradd.**

**Dim eitemau i'w cymryd mewn sesiwn breifat.**

Items to be taken in private session

To determine which items, if any, of the Agenda should be taken with the public excluded.

No items to be taken in private session.

## 7. Cynllunio

### Ystyried ceisiadau cynllunio a derbynir a dadansoddi sylwadau priodol.

#### Planning

To consider planning applications received and resolve to submit appropriate comments.

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A201051	<i>Marchnad anifeiliaid Aberteifi, Ffordd yr Orsaf, Aberteifi / Cardigan Livestock Market, Station Road, Cardigan, SA43 3AD</i>	<i>Newid defnydd hen adeiladau mart da byw ac iardiau cysylltiedig i ddepo contractwr amaethyddol, storio, defnyddiau cysylltiedig a dulliau cau ffiniau newydd / Change of use of former livestock market buildings and associated yards to agricultural contractor's depot, storage, associated uses and new boundary means of enclosure.</i>	<i>Mae'r Cyngor yn dymuno cefnogi'r cais hwn oherwydd bod y maes yn addas at y diben a bydd yn annog cyflogaeth. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yn y traffig sy'n cyrraedd y safle, a Pharc Diwydiannol Pentwd, mae'r Cyngor yn annog CSC i ystyried adeiladu slipffordd o'r ystâd ddiwydiannol yn uniongyrchol i'r bypass a rhoi pwysau ar yr Asiantaeth Cefnffyrdd i cymeradwyo gwaith o'r fath. Byddai hyn yn datrys tagfeydd a materion llygredd sŵn a aer i drigolion Ffordd yr Orsaf a Stryd y Castell / The council wishes to support this application due to the site being fit for the purpose and will encourage employment. However, due to the increased volume of traffic accessing the site, and the Pentwood Industrial Park, the council wishes to urge CCC to consider building a slip road from the industrial estate directly on to the bypass and to place pressure on the Trunk Agency to approve such works. This would solve congestion and noise and air pollution issues for Station Road and Castle Street.</i>
A201007	<i>Maes Parcio Heol Morgan, Aberteifi / Morgan Street Car Park, Cardigan.</i>	<i>Gosod ciosg canolfan arddull cadwraeth rheoli modur o fewn datblygiad cysylltiedig gan gynnwys 12 bolard cerbyd ac ailblannu 3 choed brodorol ac ymestyn y bae parcio presennol. Adeiladu arllwysiad gorlif carthffosiaeth cyfun / Installation of a conservation style motor control centre kiosk within associated development including 12no vehicle bollards and replanting of 3no native species trees and the extension of the existing parking bay. Construction of a combined sewerage overflow outfall.</i>	<i>Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais hwn, mae'n hen bryd am canolfan rheoli modur i leddfu'r risg o lifogydd, ond maent yn dymuno nodi nad ydynt yn cymeradwyo ceisiadau cynllunio ôl-weithredol, mae'n ymddangos bod gwaith wedi cychwyn ar y safle hon / The council supports this application, the need for a motor control centre to ease the risk of flooding is long overdue, but wish to note that they do not approve of retrospective planning applications, work seems to have begun on this site.</i>
A201044	<i>Glyncoed Chambers, Priory Street, Aberteifi, SA43 1BX</i>	<i>Newid defnydd o siambrau cyfreithwyr i gartref teuluol / Change of use from a solicitor's chambers to a family home.</i>	<i>Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais / The council supports the application.</i>
A201057	<i>Caer y Glyn, Gwbert Road, Aberteifi, SA43 1AF</i>	<i>Estyniad cefn un llawr a deciau / Single storey rear extension and decking.</i>	<i>Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais / The council supports the application.</i>

**8. Eitemau i'w hystyried a'u dadansoddi / Items for consideration and resolution**  
**a) Biliau i'w talu / Bills to be paid**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
01/01/21	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Ionawr/January). Band Lydan (Ionawr) / Broadband (January)	A9 A20	D/D 4996	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
05/01/21	Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Rhagfyr/December)	A5	4997	£1119.53(0.00)
05/01/21	Bachan Deche / Handyperson (Rhafyr/December)	A19	4998	122.40(20.40)
19/12/20	Zoom – Webinar fee, one month	D14	4999	£38.40(6.40)
30/11/20	M&E Pearce – Goleuadau Nadolig/Christmas lights	B1	5000	£139.31(23.22)
01/12/20	Festive Lights – Goleuadau Nadolig/Christmas lights	B1	4994	£36.35 (6.06)
04/12/20	Puretech Sound Systems – Christmas Gobo Nadolig	B1	4995	£56.34 (9.39)
09/12/20	Midshire – Hardware support charge	A7	5001	£46.20 (7.70)
06/01/21	HMRC: PAYE – Hydref, Tachwedd, Rhagfyr / October, November, December.	A16	5002	£627.60
16/12/20	Swyddfa'r Post / Post Office (Cardiau Nadolig)	A8	5003	£4.20.
27/12/20	Siemens: Prydles y llungopiwr / Lease of photocopier	A7	D/D	£150.00 (25.00)

**Cynigodd y Cyngor bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu.**

The Council proposed that the listed bills be paid.

**Derbyniadau/Receipts:**

9/11/2020 Lloyds Bank: Llog / Interest £0.54

**b) Adroddiad Ariannol hyd at 31 Rhagfyr / Financial Report to 31 December 2020.**

**Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cyngorwyr.**

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

**Cymeradwywyd bod y cyngor yn derbyn yr Adroddiad Ariannol: Cynigiwyd gan y Cyng Graham Evans, eiliwyd gan y Cyng Trystan Phillips.**

Council approved the Financial Report: proposed by Cllr Graham Evans, seconded by Cllr Trystan Phillips.

**c) Adroddiad ar yr archwiliad trywydd papur a gynhaliwyd 9 Rhagfyr gan y Cyng Shan Williams a Richard Jones / Report on the paper trail audit conducted 9 December 2020 by Cllrs Shan Williams and Richard Jones.**

**Mae'r adroddiad wedi ei flaenyrru ymlaen llaw i'r cyngorwyr.**

The report has been forwarded beforehand to all councillors.

**Cymeradwywyd bod y cyngor yn derbyn yr adroddiad ar yr achwiliad trywydd papur: Cynigiwyd gan y Cyng Clive Davies, eiliwyd gan y Cyng Debra Griffiths.**

Council approved the report on the paper trail audit: proposed by Cllr Clive Davies, seconded by Cllr Debra Griffiths.

**d) Gohebiaeth / Correspondence**

	Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read	Sylwadau / Comments
266	Emma Harvey – Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru/ Health and Social Services Group, Welsh Government: Cylchlythyr Age Cymru Newsletter/	Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 02/12/2020. For your information. Forwarded to all councillors on 02/12/2020.

267	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Cyfle cyllido i Gyngorau cymunedol a thref / Grant funding opportunity for Community and Town Councils.</i>	<i>Grant adfer gwirfoddoli / Volunteering recovery grant.</i>
268	Y Cyng/Cllr John Adams-Lewis: <i>Dolen i ddatblygu llwybr troead a llwybr beicio i gysylltu Aberteifi â Penparc / Link to survey to develop footpath and cycle path to link Cardigan to Penparc.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 03/12/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/12/2020.
269	Sara Morris – <i>Rheolwr Cynlluniau Datblygu a Chadwraeth, Cyngor Sir Penfro / Development Plans and Conservation Manager, Pembrokeshire County Council.</i>	<i>Cynllun datblygu Lleol 2, Diweddariad Rhagfyr 2020. Local Development Plan 2, December update.</i>
270	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – DC Gareth Jordan Heddlu Dyfed Powys Police – Rhybudd twyll i Gyngorwyr, llawer ohonynt yn cael eu targedu gan droseddwyr / Fraud warning to Councillors, many being targeted by criminals.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 03/12/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 03/12/2020.
271	Meleri Richards – <i>Cydlynnydd Cymunedau Gwledig, Economi ac Adfywio CSC / Rural Communities Coordinator, Economy and Regeneration CCC.</i>	<i>Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Economaidd Ceredigion – Hybu Economi Ceredigion: Strategaeth i weithredu 2020-35/ Consultation on Ceredigion Economic Strategy – Boosting Ceredigion's Economy: A strategy for action 2020-35.</i>
272	Dafydd Llywelyn – <i>Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Police and Crime Commissioner Dyfed Powys.</i>	<i>Mynnwch ddweud eich dweud ar gyllid a blaenoriaethau'r heddlu / Have your say on policing priorities and funding.</i>
273	Linda Grace – <i>Cadeirydd ymddiriedolwyr, Canolfan Plant Jig-so/Chair of Trustees, Jig-So Children Centre.</i>	<i>Gwahoddiad i ddigwyddiad rhithwir canu carolau ar 16 Rhagfyr gyda Brondesbury Lodge a'r Hafod/ Invitation to a virtual carol singing event on 16 December with Brondesbury Lodge and the Hafod.</i>
274	<i>Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council.</i>	<i>Poster casgliadau gwastraff y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd / Christmas and New Year waste collection poster.</i>
275	Ellen Jones – <i>Arweinydd prosiect Deall Lleoedd Cymru / Understanding Welsh Places Project Lead.</i>	<i>Diweddariad lansio gwefan Deall Lleoedd Cymru. Launch update Understanding Welsh Places website.</i>
276	Leanda Wynn: <i>Cylchlythyr Mis Tachwedd CIC Hywel Dda. Hywel Dda CHC's November's Newsletter.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 14/12/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/12/2020.
277	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Arolwg wedi'i anelu at ofalwyr hŷn Nghymru / Survey aimed at older carers in Wales.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 14/12/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 14/12/2020.
278	Gwen Clements – <i>Swyddog Ymgysylltu a'r Cyhoedd a'r Claf Engagement, Monitoring and Scrutiny Management Officer, Hywel Dda.</i>	<i>Posteri Cyngor Iechyd Cymunedol / Community Health Council Posters.</i>
279	<i>Adran Ystadau ar gyfer/Estates Section for Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio / Corporate Lead Officer: Economy and Regeneration.</i>	<i>Caniatâd i barcio uned bancio symudol / Permission to park mobile banking unit – NatWest Bank.</i>
280	Bronwen Robb – <i>Cyngor ar Bopeth / Ceredigion Citizens Advice.</i>	<i>Posteri cyrraedd gwledig / Rural reach posters.</i>
281	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Fforwm cynghori gweinidogol ar heneiddio / Ministerial advisory forum on ageing.</i>	<i>Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneddio / Launch of public consultation on the strategy for an ageing society.</i>
282	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Achub Bywyd Cymru / Save a Life Cymru.</i>	<i>Taflen a fideo i'w rhannu yn y gymuned / Leaflet and video for sharing in community.</i>
283	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC/WLGA coronavirus update.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrwyd i'r cyngorwyr ar 16/12/2020.</i>

		For your information. Forwarded to all councillors on 16/12/2020.
284	Howard Huws – <i>Cydlynnydd Ymgyrch Dwristiaeth, Cylch yr Iaith / Tourism Campaign Coordinator, Cylch yr Iaith.</i>	<i>Papur cyflogaeth twristiaeth cymru/ Tourism employment report.</i>
285	Nia Jones – <i>Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd, CSC / Corporate manager, Democratic Services CCC.</i>	<i>Dogfen Terminoleg Covid at sylw cyngorau tref / Covid terminology document for the attention of town councils.</i>
286	Cathryn Morgan <i>Cydlynnydd Teuluoedd yn gyntaf a Ffoaduriaid CSC / Families First and Refugees Coordinator CCC.</i>	<i>Chwarae – rhybudd Lefel 4 / Play – Alert Level 4.</i>
287	Hefin Harries – <i>Ysgrifennydd Clwb Rygbi Aberteifi / Secretary Cardigan Rugby Club.</i>	<i>Manylion ariannol am y fwyddyn diwethaf / Financial details for last year.</i>
288	<i>Preswlydd pryderus / Concerned resident – Barn ar ddatblygiad arfaethedig mart Aberteifi / View on proposed development of Cardigan Mart.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 30/12/2020.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 30/12/2020.
289	Ceri Adams-Lewis – <i>Dirywiad y cyrtiau tenis ac ardal aml chwaraeon Brenin Siôr V / Deterioration of tennis courts and multi sports area King George V.</i>	<i>Cyfarfod safle i'w gynnull gyda Ceri Adams-Lewis, y Clerc a Bachan Deche y Cyngor / Site meeting to be convened with Ceri Adams-Lewis, the Clerk and the Council's Handyperson.</i>
290	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Ail-drefnu isetholiadau llywodraeth leol / Postponement of local government by-elections.</i>	<i>Er gwybodaeth. Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 04/01/2021.</i> For your information. Forwarded to all councillors on 04/01/2021.
291	Tracy Gilmartin-Ward <i>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Diwrnod gweithwyr y GIG, gofal cymdeithasol a rheng flaen 5 Gorffennaf 2021 / NHS, social care and frontline workers day 5 July 2021.</i>	<i>Trefniadau addas i'w gwneud yn agosach at y dyddiad gan y maer newydd / Suitable arrangements to be made closer to the date by the new Mayor.</i>
292	<i>Apêl Frys Elusen Ambiwllans Awyr Cymru / Wales Air Ambulance Charity Appeal.</i> <i>Cais am gymorth ariannol. Application for financial support.</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
293	Relate (Cymru) <i>Cais am gymorth ariannol. Application for financial support</i>	<i>I'w trafod yn Is-bwyllgor Rhoddion mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.

**e) Cofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Ymgynghorol Elusen Cae Chwarae Brenin Siôr V 5 Rhagfyr 2020. Mae aelodau'r cyngor wedi derbyn y cofnodion o flaen llaw.**

Minutes for the King George V Playing Field Charity Advisory Sub-Committee Meeting 30 November 2020. Council members have received the minutes beforehand.

**1 Eitem i'w hystyried / 1 items for consideration:**

- i. Penderfynu cytuno ar yr argymhelliad a wnaed gan yr is-bwyllgor i adleoli'r pyst gôl i safle arall.**
- ii. To resolve to agree the recommendation made by the sub-committee to relocate the goalposts to an alternative site.**

**Penderfynwyd y Cyngor i gytuno ar yr argymhelliad a wnaed gan yr is-bwyllgor i adleoli'r pyst gôl i safle arall.**

The Council resolved to agree with the recommendation made by the sub-committee to relocate the goalposts to an alternative site.

**f) Penderfynu cytuno ar flwyddyn ddi-rent i'r Clwb Bowlio a'r Clwb Rygbi, cyfeiriwch ar y gohebiaeth rhif 287.**

Resolve to agree on a rent free year for the Bowling Club and the Rugby Club, please refer to correspondence number 287.

**Penderfynodd y Cyngor gytuno i ofyn am falans banc cyfredol y ddau glwb cyn gwneud penderfyniad terfynol.**

The Council resolved to agree to request the current bank balance of both clubs before making a final decision.

## **9. Eitemau er gwybodaeth yn unig**

### **a) Adroddiad y Maer**

- i. Cymryd rhan yn y cyflwyniad grant ar gyfer Pwll Nofio Aberteifi, dyfarnwyd y grant dichonoldeb o'r Loteri Genedlaethol;
- ii. Cae Chwarae Brenin Siôr Ved, man chwarae plant, sicrhawyd grant ychwanegol, gwaith i ddechrau'r mis hwn, y prosiect olaf ar gyfer fy mlwyddyn Faerol;
- iii. Goleuadau Nadolig wedi'i osod, diolch i Cyng Richard Jones, Sian Maerhleir, Yvonne O'Neill ac aelodau Pwyllgor y Carnifal am wirfoddoli gyda'r gwaith;
- iv. Cyfathrebu â phrotestwyr yn erbyn mesurau COVID-19 canol tref, gan rannu gwybodaeth rhwng swyddogion Ceredigion ac aelodau lleol;
- v. Cynnal Cronfa Lles Tref Aberteifi. Dyfarnwyd £12,000 i sawl prosiect yn yr ardal, gyda thua 70 o bobl yn mynychu'r digwyddiad ar Zoom. Diolch i'r Cyng Catrin Miles a John Adams-Lewis am fod ar y grŵp llywio ar gyfer y gronfa;
- vi. Trosglwyddwyd gwybodaeth i'r Cynghorwyr Sir am bryderon ac ymholiadau a godwyd gan ddinasyddion Aberteifi;
- vii. Prynu ymgyrch leol - 100% Aberteifi, e-bostiwyd i 2,000 o bobl a rhannu'r neges ar gyfryngau cymdeithasol;
- viii. I gefnogi lletygarwch a manwerthu – creuwyd tocyn gostyngiad o 10% i'w rhoi i fanwerthwyr am arian oddi ar brydau bwyd mewn lleoliadau lletygarwch ym mis Rhagfyr. Cynigiodd pob manwerthwyr y tocyn am wariant dros £50.00. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar wahân i un manwethwr a phreswylydd;
- ix. Weinyddir y gystadleuaeth Ffenestr Nadolig – llongyfarhciau i enillydd 2020 sef U Melt Me, Mundos a Llinos Haircare.
- x. Siaradwr yn seminar Tref Smart Cymru;
- xi. Cyfarfod â'r datblygwr newydd ar gyfer uwchraddio App Tref Aberteifi ar gyfer 2021;
- xii. Cyfarfod â thrigolion yn ardal Gloster Row gydar Cyng Catrin Miles, Elin Jones AC a Ben Lake AS ynghlych cynllun llifogydd;
- xiii. Ymunodd 20 o wirfoddolwyr â'r Maer a'r Faeres i ddosbarthu 60 o brydau Nadolig a sgwrs ar steplen drws yn Aberteifi. Diolch i'r Cyng Catrin Miles a Graham Evans am wirfoddoli a Western Power a noddi'r digwyddiad cyfan a fu'n llwyddiant mawr;

### Items for information only

#### **a) Mayor's Report**

- i. Participated in the grant presentation for Cardigan Swimming Pool, the feasibility grant from the National Lottery has been awarded;
- ii. King George V play area, additional grant secured, work to begin this month, last project for my Mayoral year;
- iii. Christmas lighting scheme installed thanks to Cllrs Richard Jones, Sian Maerhleir, Yvonne O'Neill and members of the Carnival Committee for volunteering with the install;
- iv. Correspondence with protestors against town centre COVID measures, providing information as I receive from Ceredigion and local members and vice versa;
- v. Hosted the Cardigan Town Wellbeing fund. £12,000 awarded to several projects in the area, with approximately 70 people attending the Zoom event. Thank you to Cllrs Catrin Miles and John Adams-Lewis for being on the steering group for the fund.
- vi. Sign posting to relative County Councillors concerns and queries raised by Cardigan citizens;
- vii. Buy local Campaign - 100% Cardigan, e-mailed to 2,000 people and shared on social media;
- viii. To support hospitality and retail – created a 10% discount voucher to be handed out by retailers for money off meals at selected hospitality venues in December. All retailers offered the voucher for spend over £50. Feedback was positive apart from one retailer and one resident;

- ix. Administrated Christmas window competition – congratulations to the 2020 winners U Melt Me, Mundos and Llinos Haircare;
- x. Speaker at Smart Town Wales seminar;
- xi. Meeting with new developer for upgrading Cardigan Town App for 2021;
- xii. Meeting with residents in Gloster Row area with Cllr Catrin Miles, Elin Jones AM and Ben Lake MP regarding flood scheme;
- xiii. 20 volunteers joined the Mayor and Mayoress to distribute 60 Christmas meals, and a doorstep chat in Cardigan. Thank you to Cllrs Catrin Miles and Graham Evans for volunteering and Western Power for sponsoring the whole event which proved to be a great success;

## **b) Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**

### **Y Cyng Catrin Miles Ward Teifi**

- i. **LLIFOGYDD:** cyfarfod gydag Elin Jones AS, Ben Lake AS, Maer Aberteifi a thrigolion lleol i drafod y sefyllfa ger y llithrfa yn Gloster Row (yr unig un yn Aberteifi sy'n effeithio cymaint o dai a thrigolion). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried cynllun i atal llifogydd yn yr ardal ond cynllun hir-dymor yw hwn. Yn y cyfamser, mae bob llanw uchel yn pery gofid i bobl leol. Un syniad tymor-byr yw trefnu bagiau swnd 1xtunnell i atal y dwr rhag godi dros y llithrfa. Mae cwmni lleol yn medru cyflenwi bagiau (9 neu 10 @£32.50 yr un + TAW) a byddaf yn gofyn yn y man cyntaf i NRW am ystyried talu am rhain. Mae sawl llanw uchel yn fuan (13-17 Ionawr) felly mae hwn yn fater o frys.  
*Oherwydd y mater o frys ynglŷn â phrynu bagiau swnd i atal dŵr llifogydd rhag cyrraedd cartrefi cyfagos yn Gloster Row, penderfynodd y Cynghorwyr gytuno y byddai cosatu'n cael eu talu o'r gyllideb amdiffyn rhag llifogydd pe bai NRW yn gwrthod ac i'r penderfyniad hwn gael ei gofnodi.*
- ii. **YSGOLION:** oherwydd y feirws, mae ysgolion Ceredigion (a ledled Cymru) ar gau, gyda rhaglen o ddysgu rhithiol, tan o leiaf y 18 Ionawr 2021.
- iii. **BRECHLUN COVID:** pwysig bod pawb yn mynd a rhif NHS gyda nhw. Fel arall, mae'n arafu'r broses yn sylweddol.
- iv. **SBWRIEL:** Nid oedd casgliad gwastraff Dydd Gwener (Nadolig na Dydd Calan) er bod rhai wedi rhoi sbwriel mas ac yn achwyn y dylai staff CSC weithio bob diwrnod! Er tegwch i'r gweithwyr, mae nifer ohonynt yn dost neu'n hunan-ynysu a hefyd, maent yn gyfrifol am waith graeanu, cynnal a chadw pan mae stormydd ayyb.

## **a) Reports from County Councillors**

### **Cllr Catrin Miles Teifi Ward**

- i. **FLOODING:** I've met with Elin Jones SM, Ben Lake AM, Cardigan mayor and local residents to discuss the Gloster Row slipway (the only one in Cardigan that affects so many homes nearby). NRW are working on a scheme to tackle flooding in the area but this is a long-term solution. In the meantime, each and every high-tide is a source of great worry for residents. One short-term suggestion is to place big (1-ton) bags of sand across the slipway to prevent flood-water from reaching nearby homes. A local company can supply and deliver (9 or 10 bags @ £32.50 each + VAT). In the first instance, NRW will be approached with a view to paying for these, as it



is their responsibility. A series of high-tides are imminent (13-17 January) so this is a matter of urgency.

*Due to the matter of urgency regarding the purchase of sand bags to prevent flood water reaching nearby homes in Gloster Row the Councillors resolved to agree that costs would be paid from the flood defence budget if the NRW refused and for this decision to be minuted.*

- ii. SCHOOLS: schools in Ceredigion (& throughout Wales) are closed and operating Distance Learning until at least Monday 18th January 2021.
- iii. COVID VACCINE: important that those called for a vaccine remember to take their NHS number with them as this will facilitate the process.
- iv. REFUSE COLLECTION: Christmas/New Year's Day fell on a Friday this year but even so some presented their refuse on those days and even suggested that Council workers should work 7 days a week! In fairness, some staff are off sick or self-isolating whilst others are busy gritting roads or dealing with the effects of winter storms.

#### **Y Cyng Elaine Evans Ward Rhyd-y-fuwch**

- i. Rhoddwyd gefnogaeth i berchennog busnes lleol sef Castaway Fishing Tackle, i ysgrifennu llythyr at y Cyngor yn gofyn i'r rhewl gael eu hailagor. Mae 55 o lythyrau gan fasnachwyr lleol wedi cael eu hanfon at CSC i ddeisebu am barcio am ddim i annog busnes i ganol y dref.
- ii. Canolfan profi Covid Maes Parcio Pwll Nofio – roedd y lleoliad y gwasanaeth hwn yn creu pryder ymysg rhieni o ran gollwng a chasglu plant o'r ysgol. Sawl cwyn hefyd ynglŷn ag agwedd y staff yno. Cadarnhaodd CSC fod ateb ymarferol i'w lunio gan y Bwrdd Iechyd i adolygu cynllun y maes parcio.
- iii. Roedd y bolardiau yn cau Stryd William yn achosi problemau i drigolion gael mynediad i'r ffordd, anfonwyd cais at CSC i'w symud yn ôl i leddfu'r broblem.
- iv. Sbwriel y tu allan i Barnados – sawl cynghorydd yn derbyn cwynion, mae'r rheolwr ar ffyrlo ond cysylltwyd â'r brif swyddfa i ofyn i'r sbwriel gael ei casglu.
- v. Casglu sbwriel yn gyffredinol – sawl cwyn ynglŷn â'r broblem hon, cadarnhaodd CSC ei fod yn fater staffio, yr un tîm sydd yn graenu y strydoedd.

#### **CLlr Elaine Evans Rhyd-y-fuwch Ward**

- i. Provided support to local business owner of Castaway Fishing Tackle, to write a letter to the Council requesting the roads to be reopened. 55 letters from local traders have been forwarded to CCC to petition for free parking to encourage business into the town centre.
- ii. Covid testing centre Swimming Pool car park – location of this service created concern amongst parents with regards dropping and collecting children from the school. Several complaints also regarding the attitude of the staff there. CCC confirmed that a workable solution to be drawn up by the Health Board to review the layout of the car park.
- iii. Bollards closing off William street were causing problems for residents to access the road, request sent to CCC to move them back to ease the problem.
- iv. Refuse outside Barnados - several councillors receiving complaints, the manager is furloughed, but contact has been made to head office to ask that the rubbish be removed.
- v. General refuse collection – several complaints regarding this problem, CCC confirmed it's a staffing issue, the same team carry out surface gritting.

#### **c) Adroddiad y Bachan Deche/Handyperson's Report**

- i. **Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5<sup>th</sup> Children's Play Area**  
**Nid yw'r parc chwarae'n cael ei defnyddio llawer ar hyn o bryd oherwydd Cofid.**  
The play area is not being used much at the moment due to Covid.  
**Mae'r colfachau ar 2 o'r biniau wedi torri, byddant yn cael eu hatgweirio yn fuan.**

The hinges on 2 of the bins have broken, they will be repaired soon.

ii. **Man chwarae amlbwrpas a chyrtau tenis/** Multi-purpose play area and Tennis Courts.  
**Dim byd o bwys i'w gofnodi /**Nothing of note to record.

iii. **Maes Sgrialu /**Skateboard Park

**Dim byd o bwys i'w gofnodi /**Nothing of note to record.

iv. **Cyffredinol /** General

**Mae'r sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r goleuadau Nadolig eleni wedi bod yn hynod gadarnhaol, llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled yn trefnu'r arddangosfa.**

Comments received regarding the Christmas lights this year have been extremely positive, congratulations to everyone involved for their hard work in organising the display.

d) **Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

**Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

10. **Eitemau ar gyfer yr Agenda nesaf:**

Items for the next Agenda:

**Cyflwyniad gan Mr Peter Williams**

**Trafodaeth am Rhyngrwyd o Pethau, a sut y gall hyn helpu trefi fel Aberteifi, a sut y gall Aberteifi adeiladu ar y gwaith arloesol a gyflanwyd yn barod.**

Presentation by Mr Peter Williams

Discussion about the Internet of Things and how this can help towns like Cardigan, and how Cardigan can build on the innovative work already accomplished.

A478

**Diweddariad ar waith arfaethedig i atal damweiniau pellach.**

Update on intended works to prevent further accidents.

**Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.45yh.**

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.45pm.

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....